Llawlyfr gorsafoedd pleidleisio – gwiriadau: etholiad Senedd y DU

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dylid darllen y 'Llawlyfr i staff gorsafoedd pleidleisio: Cefnogi etholiad Senedd y DU ym Mhrydain Fawr' ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Mae mân wall teipograffyddol yn Atodiad 5a yn y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy ar gyfer etholwr sydd â chofnod dienw ar y gofrestr etholiadol. Mae'r mewnosodiad hwn wedi'i gyhoeddi i gywiro'r gwall hwn.

Rydym wedi cynnwys y newidiadau / ychwanegiadau ar ddalennau unigol yn y ddogfen hon, fel y gellir eu hargraffu a'u gosod yn y rhannau perthnasol o'r llawlyfr er hwylustod.

Crynodeb o'r newidiadau

Penawdau adrannau yr effeithir arnynt	Geiriad newydd neu ychwanegiad	Tudalennau o lawlyfr etholiad cyffredinol Senedd y DU
Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr â chofnod dienw	Geiriad newydd	t 53-54

Y cwestiynau rhagnodedig i'w gofyn i berson sy'n gwneud cais i bleidleisio fel dirprwy ar ran etholwr â chofnod dienw (Geiriad newydd t 53-54)

‘Beth yw eich enw?’

Os na all y dirprwy roi ei enw, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd y dirprwy yn rhoi ei enw, gofynnwch:

‘Beth yw eich cyfeiriad?’

Os na all y dirprwy roi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar y rhestr dirprwyon, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os bydd y dirprwy yn rhoi'r cyfeiriad sy'n ymddangos ar y rhestr dirprwyon, gofynnwch:

‘Ai chi yw'r person y mae hawl ganddo i bleidleisio fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif (darllenwch yn uchel y rhif o'r gofrestr) ar y gofrestr etholwyr?’

Os mai ‘na’ yw'r ateb, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os mai ‘ie’ yw'r ateb, gofynnwch:

‘A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu rywle arall fel dirprwy ar ran yr etholwr sydd â'r rhif (darllenwch yn uchel rif yr etholwr o'r gofrestr) ar y gofrestr etholwyr?’

Os mai ‘ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, ni ddylid rhoi papur pleidleisio.

Os mai ‘nac ydw’ yw'r ateb, rhaid i chi hefyd ofyn:

‘A ydych eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy yn yr etholiad hwn, naill ai yma neu rywle arall yn yr etholaeth hon neu yn unrhyw etholaeth arall, ar ran pedwar etholwr neu fwy?’

Os mai ‘ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, ni ddylid rhoi papur pleidleisio.

Fodd bynnag, os mai ‘nac ydw’ yw'r ateb, gofynnwch:

‘A ydych chi eisoes wedi pleidleisio fel dirprwy yn yr etholiad hwn, naill ai yma neu rywle arall yn yr etholaeth hon neu yn unrhyw etholaeth arall, ar ran dau etholwr neu fwy?’

Os mai ‘nac ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol.

Os mai ‘ydw’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, gofynnwch:

‘A oedd dau neu fwy o'r etholwyr y gwnaethoch bleidleisio ar eu rhan yn yr etholiad hwn wedi'u cofrestru mewn cofrestr o etholwyr seneddol ac eithrio yn unol â datganiad etholwr tramor neu ddatganiad gwasanaeth?’

Os mai ‘nac oedd’ yw'r ateb, rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd, fel y bo'n briodol.

Os mai ‘oedd’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, gofynnwch:

‘A yw'r etholwr (neu'r etholwyr) rydych yn pleidleisio ar ei ran (neu ar eu rhan) heddiw wedi'i gofrestru (neu wedi'u cofrestru) mewn cofrestr o etholwyr seneddol ac eithrio yn unol â datganiad etholwr tramor neu ddatganiad gwasanaeth?’

Os mai ‘ydy/ydynt’ yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, peidiwch â rhoi papur pleidleisio.

Os mai ‘nac ydy/nac ydynt’ yw'r ateb (a bod y cwestiynau uchod wedi'u hateb yn foddhaol), rhaid rhoi papur pleidleisio cyffredin neu bapur pleidleisio a gyflwynwyd fel y bo'n briodol.